| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **27 Ionawr 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD YN OL I'R CYNGBOR A CHYMERADWYO'R CYNIGION** |

**1. Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar 5ed Rhagfyr 2013 ar amseriad cynnal cyfarfodydd.

1.2 **Penderfynwyd:**

Gohirio ystyried y mater a'i fod yn cael ei ystyried ymhellach gan yr Arweinyddion Grwpiau a'r UDA (yn cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb) i weld pa mor ymarferol oedd galw rhai cyfarfodydd naill ai am 4:00pm neu 4:30pm. Byddai canlyniad y trafodaethau hynny'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor Sir ar y cyfle cyntaf**.**

**2.0 Trafodaethau**

2.1 Mae'r Arweinyddion Grwpiau a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth wedi ystyried y priodoldeb o gynnal rhai cyfarfodydd naill a'i am 4.00pm neu 4.30pm. Mae hyn yn cael ei gefnogi. Mae Arweinyddion Grwpiau yn awgrymu trefniant i'w dreialu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Trwyddedu a hefyd y ddau Bwyllgor Craffu.

3.0 **Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

3.1 Paratowyd asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol er mwyn ystyried yr effaith posib o gynnal cyfarfodydd am 4.00pm a 4.30pm. Petai'r Cyngor yn cytuno i hyn a chynnal cyfarfodydd am 4.00pm a 4.30pm y dylid:

- ystyried cyfyngu unrhyw effaith negyddol ar aelodau drwy geisio adnabod (drwy aelodaeth pwyllgorau) a fyddai cynnal cyfarfodydd yn hwyrach yn debygol o gael effaith o'r fath;

- ystyried a fyddai cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach drwy wella mynediad i gyfarfodydd;

- petai'r Cyngor yn penderfynu yn y pendraw i newid amseriad cyfarfodydd, y dylid monitro yn ofalus y trefniadau newydd a'u hadolygu gan na fyddai modd ystyried effaith gwirioneddol unrhyw bolisi tan y cyflwynwyd trefn newydd a'i weithredu.

4.0 **Argymhellion**

1) Cefnogi cynnal rhai cyfarfodydd am 4.00pm neu 4.30pm ac y dylid cynnal trafodaeth gyda'r Cadeiryddion perthnasol para 2.1;

2) Nodi canlyniadau'r asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol;

3) Dylid treialu hyn am gyfnod o 12 mis i gychwyn yn Ebrill 2014.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**17/01/14**